

Nodyn

Cywydd Epitaff Adam Wsg a ‘Cusky’ Saesneg Canol

Saith mlynedd yn ôl, cyhoeddais nodyn yn *Notes & Queries* yn dadlau bod y gair Saesneg Canol ‘cusky’ yn fenthyciad o’r gair Cymraeg ‘cysgu’.¹ Yn ddiweddar, daeth rhagor o dystiolaeth i’m sylw i gefnogi tarddiad Cymraeg ar gyfer y gair.

Y mae ‘cusky’ yn air prin. Nid yw’n digwydd ond ddwywaith, a hynny mewn dwy gerdd o’r bymthegfed ganrif. Gan nad oes ond dwy enghraifft hysbys o’r gair yng nghorpus yr iaith Saesneg, anodd yw siarad â sicrwydd wrth ei drafod. Pe deuid o hyd i ragor o enghreifftiau ohono, mae’n bosibl y gallai hynny gymhlethu neu herio’r dadleuon isod. Serch hynny, ymddengys yr achos dros darddiad Cymraeg yn weddol gadarn.

Mum and the Sothsegger a’r *Canterbury Interlude* yw’r cerddi sy’n cynnwys y gair ‘cusky’. Cyfansoddwyd *Mum and the Sothsegger* yn negawd cyntaf y bymthegfed ganrif yn nhafodiaith De Orllewin Canolbarth Lloegr.² Y mae’r gerdd yn dadlau dros bwysigrwydd dweud y gwir yn lle cadw’n dawel. Ac y mae hyn yn berthnasol i’w hunig ddefnydd o ‘cusky’, sef:

And as I stode staring, stonyd of þis matiere,
Mum vith his myter manachid me ever,
And cunseilled me to cusky and care for myself,
And leste I soughte sorowe, cesse by tyme.

Ac wrth imi sefyll yn syllu, wedi fy synnu gan y mater hwn, bygythiodd Mum fi â'i feitr a'm cynghori i *cusky* ac i ofalu amdanaf fi fy hun a, rhag ofn imi chwilio am ofid, i beidio yn syth.

(llinellau 578–581)

Y mae'r siaradwr wedi ceisio chwilio am eraill i'w gynghori a ddylai gadw'n dawel fel Mum neu leisio'r gwir ac wedi methu â chael cymorth gan glerigwyr. Yma y mae Mum yn cynghori'r siaradwr i roi'r gorau i'w chwilio am yr hyn sy'n iawn. Nid yw'n glir fod 'cusky' yn dilyn ystyr lythrennol 'cysgu' fan hyn, ac eto y mae'r ystyron posibl fel 'gorffwys', 'tawelu', ac 'aros yn segur' yn debyg iddi. Y mae'n werth cymharu'r defnydd o 'cesse' yn ll. 581 ag enghraifft ddiweddarach yn y gerdd, lle defnyddir y gair 'cessid' i ddisgrifio'r weithred o gysgu:

Thenne sought I forth sevenyght and slepte ful silde,
And cessid on a Saterdag til sunne roose amorowe,

Wedyn parheais i chwilio am wythnos gan gysgu ond yn anaml, a pheidio ar ddydd
Sadwrn nes i'r haul godi drannoeth.³

(llinellau 592–3)

Y mae'r ail destun, y *Canterbury Interlude*, yn ymateb diddorol dros ben i waith Chaucer. Yn y gerdd hon, y mae pererinion Caergaint yn cyrraedd pen y daith o'r diwedd, a chawn olwg ar eu hymddygiad yn ninas Caergaint. Cyfansoddwyd y testun eto yn gynnar yn

y bymthegfed ganrif, y tro hwn yn nhafodiaith De-Ddwyrain Lloegr, sy'n ffaith ddiddorol os derbynnir mai benthyciad o'r Gymraeg yw 'cusky'.⁴ Dyma'r dyfyniad perthnasol, sy'n disgrifio'r rhan fwyaf o'r pererinion yn mynd i'r gwely ar ôl cyrraedd Caergaint:

But yit they preyd hem curteysly to rest for to wend.

And so they did, al the route, they dronk and made an ende,

And eche man drouze to cusky, to sclepe, & take his rest.⁵

Ond eto gofynasant yn gwrtais iddynt fynd i orffwys. Ac felly y gwnaethant, yr holl fintai. Yfasant a dod â phethau i ben, ac aeth pawb i *cusky*, i gysgu, ac i orffwys.

(llinellau 421–3)

Yn yr achos yma y mae 'cusky' yn amlwg yn dilyn ystyr y gair Cymraeg. Y mae mewn cyfosodiad â 'sclepe' a 'take his rest' ac ymddengys ei fod yn golygu 'cysgu', 'gorffwys', neu rywbeth tebyg. Y mae'n werth nodi nad yw 'cusky' yn digwydd ond mewn cyfosodiad gyda geiriau eraill ag ystyron tebyg. Gall hyn awgrymu nad oedd y gair yn gyffredin iawn a bod y geiriau eraill yn amlygu ei ystyr i rai darllenwyr neu wrandawyr na fyddent yn gyfarwydd ag ef.⁶

Gwelir, felly, fod 'cusky' a 'chysgu' yn debyg iawn o ran ystyr ac o ran ffurf. Ac eto erys anawsterau seinegol. Y brif broblem yw bod <y> yn 'cysgu' yn ei ffurf fodern ac yn ei ffurf ganoloesol yn cynrychioli /ə/.⁷ Disgwyliad i <u> 'cusky' Saesneg Canol, ar y llaw arall, gynrychioli rhywbeth tebyg i /ʊ/. Dadleuais yn wreiddiol ei bod yn bosibl mai defnydd eithriadol o <u> i sefyll am /ə/ acennog sydd yma, llafariad na fyddai fel arfer yn digwydd yn

Saesneg Canol. Ond erbyn hyn y mae esboniad symlach a mwy argyhoeddiadol wedi ei amlygu ei hun. Yn y fan hon y mae'r dystiolaeth sydd newydd ddod i'm sylw yn bwysig. Yn Eglwys Brynbuga yn Ne-Ddwyrain Cymru ceir plac pres sy'n cynnwys epitaff i'r croniclwr Adam Wsg (neu Adam de Usk) ar ffurf cywydd wyth llinell. Bu farw Adam Wsg yn 1430 ac y mae'r plac yn dyddio o'r bymthegfed ganrif.⁸ Y mae hon yn ffynhonnell ddiddorol a chymhleth o ran ei horgraff a materion eraill, ond yr hyn sy'n bwysig i'r ddadl yma yw llinell 6, sef 'adam vske eva l kuske'. Newidir yr orgraff gyda diwygiad gan John Morris-Jones i 'Adam Wsk, yna yn kwsky'.⁹ Profa cynghanedd lusg y llinell hon fod odl rhwng 'vske' ('Wsk') a 'kuske' ('kwsky') a hynny heb fod angen unrhyw ddiwygio golygyddol. Ac felly y mae'r gynghanedd yn cadarnhau mai 'cwsgu' yw'r ffurf yma gydag /o/ acennog yn y sillaf gyntaf.¹⁰ Y mae hyn yn awgrymu bod rhywbeth fel /kʊski/ wedi bodoli fel ffurf dafodieithol yn yr ardal hon yn y bymthegfed ganrif. Mewn rhai ardaloedd o Sir Benfro, y mae'r ffurf 'cwsgu' ar lafar o hyd.¹¹ Y mae /kʊski/ o ran ffurf ac ystyr yn dra thebyg i 'cusky' Saesneg Canol, ac yn llawer agosach at y gair na'r ffurf Hen Islandeg 'kugask', sef y ffurf y mae'r *Middle English Dictionary* yn ei chymharu â 'cusky'.¹² O ran lleoliad, y mae'n digwydd mewn ardaloedd o Gymru lle ceid cyswllt ieithyddol aml rhwng y Gymraeg a Saesneg, ac felly lle disgwyliid peth benthyg rhwng yr ieithoedd hynny.

Ymddengys yn fwyaf tebygol, felly, mai enghraifft bwysig a phrin o fenthyciad Cymraeg yn Saesneg Canol yw 'cusky'. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod golygydd yn y ddeunawfed ganrif, sef John Urry (1666–1715), eisoes wedi gweld y gair fel un Cymraeg yn barod. Dyma nodiadau ei 'Glossary': '*Cusky*, PT. 423. The words [*to slepe*] which follow it, seem to have been at first a Gloss in the margin for explaining the Cambro-Britannic *Cusky* or *Cysgu*, To sleep.'¹³ Diddorol fyddai dod i wybod rhagor am sut yr oedd Urry, brodor o Ddulyn a myfyriwr yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychen, yn gyfarwydd â'r gair Cymraeg

hwn.¹⁴ Faint o Gymraeg a wyddai Urry? Y mae'n bosibl fod ei ddadl anargyhoeddiadol mai glos ar 'cusky' yw 'sclepe' wedi arwain ysgolheigion mwy diweddar i anwybyddu ei gynnig ar gyfer tarddiad y gair. Ac eto y mae'r posibilrwydd bod y gair o darddiad Cymraeg yn amlwg ddigon i ddarllenwyr Cymraeg y testunau Saesneg Canol hyn. Y tebyg yw, felly, fod rhagor o enghreifftiau o eiriau o darddiad Cymraeg yn cuddio yng nghorpws enfawr llenyddiaeth Saesneg Canol a byddwn i'n edrych i gyfeiriad testunau Saesneg Canol diweddar o'r gororau.

Caerdydd

David Callander

¹ David Callander, 'Middle English *Cusky*', *Notes & Queries*, 60 (2013), 365–7.

² Mabel Day a Robert Steele (goln), *Mum and the Sothsegger: Edited from the manuscripts Camb. Univ. Ll.IV. 14 and Brit. Mus. Add. 41666* (London: Milford for E.E.T.S., 1936), t. xxx.

³ Cymh. 'Cesen' 1f 'to come to rest, be at rest' yn Robert E. Lewis et al. (goln), *Middle English Dictionary* (Ann Arbor: University of Michigan Press, 1952–2001.) Fersiwn ar lein yn Frances McSparran et al. (goln) *Middle English Compendium* (Ann Arbor: University of Michigan Library, 2000–2018.) Ar gael: <http://quod.lib.umich.edu/m/middle-english-dictionary/>, cyrchwyd 21 Chwefror 2020.

⁴ John M. Bowers (gol.), *The Canterbury Tales: Fifteenth Century Continuations and Additions* (Kalamazoo, MI: Medieval Institute Publications, 1992), t. 59.

⁵ Newidiais yr atalnodi yn unol â'm dehongliad: gw. Callander, 'Middle English *Cusky*'.

⁶ Diolch i Megan Leitch am awgrymu hyn wrthyf.

⁷ Am drafodaeth o lafariaid terfynol ‘cysgu’ a ‘cusky’, gw. Callander, ‘Middle English *Cusky*’, tt. 366–7.

⁸ Ar Adam Wsg, gw. J. E. Lloyd, ‘Adam ‘de Usk’’, *Y Bywgraffiadur Cymreig* (1953). [Ar-lein]. Ar gael: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ADAM-OFU-1352>, cyrchwyd 21 Chwefror 2020; a Christopher Given-Wilson (gol. a chyf.), *The Chronicle of Adam Usk 1377–1421* (Oxford: Oxford University Press, 1997). Am drawsysgrifiad a golygiad o’r cywydd, gw. John Morris-Jones, ‘Adam Usk’s Epitaph’, *Y Cymmrodor* 31 (1921), 112–134. Rwy’n ddiolchgar i Dylan Foster Evans am ddod â’r ffynhonnell yma i’m sylw.

⁹ Ar y diwygiad (sy’n argyhoeddiadol yn fy marn i) gw. Morris-Jones, ‘Adam Usk’s Epitaph’, tt. 131–2. Fel y dywed Morris-Jones (132), dylid cywasgu ‘yna yn’ i ‘yna’n’ er mwyn hyd y llinell.

¹⁰ Mewn Cymraeg Diweddar, fe ellid yn ddamcaniaethol gael cynganedd lusg ar y sain /ə/: ‘Adam Ýsg yna yn cysgu’. Ond ni fyddai’r ffurf Gymraeg ‘W(y)sg’ na’r Saesneg ‘Usk’ wedi cynnwys y llafariad /ə/ yn y bymthegfed ganrif, gw. Morris-Jones, ‘Adam Usk’s Epitaph’, 131 a chymh. T. H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1923), t. 153.

¹¹ Gwenllian Awbery, *Cymraeg Sir Benfro* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1991), t. 16; Gwenllian Awbery, *Pembrokeshire Welsh: A Phonological Study* ([St Fagans]: National Museum of Wales, Welsh Folk Museum, 1986), t. 62. Diolch i Iwan Wyn Rees am ddod â hyn i’m sylw.

¹² Gw. ‘cuski’, v. yn Lewis et al., *Middle English Dictionary*.

¹³ ‘Glossary’ yn John Urry (gol.), *The Works of Geoffrey Chaucer* (London: Bernard Lintot, 1721), t. 19. Urry piau’r bachau petryal. Estynnais ei dalfyriad ‘CB’ i ‘Cambro-Britannic’, sef y Gymraeg.

¹⁴ E. I. Carlyle ac A. S. G. Edwards, 'Urry, John' yn *Oxford Dictionary of National Biography* (Oxford: Oxford University Press). [Ar-lein]. Ar gael: <https://doi.org/10.1093/ref:odnb/28021>, cyrchwyd 21 Chwefror 2020.